Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 25/2026

Dyddiad cyhoeddi: 23/02/2026

# Gwerthusiad o Bolisi Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd Llywodraeth Cymru: Adroddiad Interim

## Crynodeb gweithredol

### 1. Cyflwyniad

Cyhoeddwyd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i brydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd (UPFSM) ym mis Rhagfyr 2021. Gwnaed y penderfyniad hwn mewn ymateb i bryderon cynyddol ynghylch ansicrwydd bwyd a phwysau cynyddol costau byw, a oedd wedi gwaethygu ymhellach gan bandemig y coronafeirws (COVID-19).

Mae UPFSM yn sicrhau bod gan bob plentyn oedran cynradd sy'n mynychu ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol (ALl) yng Nghymru fynediad at bryd ysgol am ddim. Yn ystod y broses gyflwyno, y nod uniongyrchol oedd sicrhau y gallai pob dysgwr oedran cynradd nad oedd yn gymwys o'r blaen am brydau ysgol am ddim gael mynediad atynt. Mae'r polisi hefyd, yn fwy cyffredinol, yn anelu at sicrhau buddion ehangach, gan gynnwys maeth gwell, deilliannau iechyd gwell, lleihad o ran anghydraddoldebau iechyd, lefelau is o dlodi a newyn ymhlith plant, a chyrhaeddiad addysgol gwell.

Cyflwynwyd UPFSM fesul cam rhwng mis Medi 2022 a mis Medi 2024. Dechreuodd y cyflwyniad gyda'r blynyddoedd ieuengaf (dosbarth derbyn, Blwyddyn 1, Blwyddyn 2) gan eu bod yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi incwm cymharol (Tlodi incwm cymharol: Ebrill 2019 i Fawrth 2020). Y garfan gymwys gyntaf oedd plant a aned ar neu ar ôl 1 Medi 2018. Ehangwyd y cynnig yn raddol i grwpiau blwyddyn hŷn, a gwnaeth pob ALl fodloni dyddiad cau terfynol Llywodraeth Cymru, sef mis Medi 2024, er gwaethaf cyflymderau cyflwyno amrywiol.

## 2. Methodoleg

Mae ICF Consulting Services Ltd (ICF), mewn partneriaeth ag Ymchwil Arad, wedi cael eu comisiynu i werthuso gweithrediad ac effaith y polisi UPFSM. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau dros dro o'r gwerthusiad, sydd wedi mabwysiadu ymagwedd sawl dull sy'n seiliedig ar ddamcaniaeth. Mae'r adroddiad wedi'i lywio gan weithgareddau ymchwil a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr a mis Medi 2025, a oedd yn cynnwys y canlynol:

- cyfweliadau lled-strwythuredig ag arweinwyr strategol awdurdodau lleol o bob un o'r 22 ALl, wyth darparwr bwyd i ysgolion, a naw rhanddeiliad ehangach o'r sectorau iechyd, addysg, ymchwil a lliniaru tlodi
- astudiaethau achos manwl mewn 13 ysgol gynradd ledled Cymru
- arolwg o uwch-arweinwyr ysgolion cynradd, yn cynnwys ymatebion gan 47 o ysgolion

## 3. Canfyddiadau

### Gweithredu UPFSM

Roedd rhanddeiliaid yn cefnogi UPFSM yn fras, ac roedd y rhan fwyaf yn cytuno y dylai pob dysgwr oedran ysgol gynradd gael mynediad at brydau ysgol am ddim. Croesawyd y polisi am ei botensial i leihau stigma ar gyfer dysgwyr a oedd gynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim drwy gael gwared ar wahaniaethau gweladwy rhwng y rhai sy'n gymwys i gael cymorth a'u cymheiriaid. Fodd bynnag, mynegodd rhai penaethiaid ysgolion amheuaeth gynnar, gan gwestiynu ai darpariaeth gyffredinol yw'r defnydd gorau o adnoddau. Awgrymodd lleiafrif o'r rhanddeiliaid a gyfwelwyd y gallai cymorth sy'n targedu teuluoedd sydd ychydig uwchben y trothwy ar gyfer fod yn gymwys am brydau ysgol am ddim fynd i'r afael â phwysau costau byw yn well.

Cyn y cyflwyniad, gofynnodd Llywodraeth Cymru i ALlau asesu eu ceginau, eu seilwaith, a pha mor barod oeddynt, gan ddefnyddio'r wybodaeth hon i helpu i lunio cerrig milltir y cyflwyniad. Ymrwymwyd i roi cyllid cyfalaf a refeniw hefyd i gefnogi'r newidiadau seilwaith sydd eu hangen ar gyfer cyflwyno UPFSM, ac mae dyraniadau wedi'u teilwra i faint ac anghenion pob ALl.

Er bod llawer o ysgolion wedi elwa o uwchraddio ceginau, offer newydd, mwy o staff, a systemau digidol wedi'u diweddaru, nododd rhai ysgolion eu bod yn wynebu heriau logistaidd mawr. Roedd hyn yn cynnwys dibyniaeth ar baratoi prydau bwyd oddi ar y safle, heriau yn ymwneud â chaffael offer, beichiau gweinyddol uwch, a heriau wrth recriwtio staff. Hefyd, rhoddodd sawl ysgol wybod eu bod wedi addasu oriau staff, wedi adleoli cynorthwywyr addysgu neu staff gweinyddol, ac wedi cyflogi goruchwylwyr amser cinio ychwanegol i gynorthwyo gyda llwythi gwaith uwch yn ymwneud â pharatoi bwyd, gweini, a goruchwylio amser cinio. Fodd bynnag, rhoddodd yr ymatebwyr wybod bod recriwtio a chadw staff arlwyo rhan-amser wedi profi'n anodd, gan fod angen staff asiantaeth neu gymhellion yn aml, a oedd yn cynyddu costau ac yn creu anghysondeb gweithredol. Mewn rhai achosion, nododd ALlau eu bod wedi ysgwyddo costau annisgwyl neu wedi darparu cymorth gweithredol ychwanegol i liniaru'r pwysau hyn.

Adroddodd llawer o arweinwyr strategol ALlau fod gweithredu UPFSM yn heriol oherwydd terfynau amser gweithredu tynn ar gyfer y garfan gyntaf a phwysau parhaus ar ysgolion yn dilyn pandemig COVID-19. Cafodd y pwysau hyn eu cydnabod yn eang ar draws Llywodraeth Cymru ac ALlau, gan adlewyrchu ymrwymiad gwleidyddol a gyhoeddwyd yn ddi-oed ac yng nghyd-destun gwybodaeth sy'n esblygu. Er gwaethaf yr heriau hyn, roedd y cyflwyniad graddol yn cael ei ystyried mewn ffordd gadarnhaol yn gyffredinol, gan ei fod yn rhoi hyblygrwydd ac amser i ysgolion baratoi, yn enwedig y rhai oedd angen uwchraddio seilwaith yn sylweddol.

## Arferion caffael

Mae polisi UPFSM yn cynnwys nod i gefnogi cadwyn gyflenwi bwyd Cymru a'r economi leol drwy gynyddu'r galw am gynhwysion a gynhyrchir yn lleol ac annog ysgolion a darparwyr arlwyo i gaffael bwyd gan gyflenwyr o Gymru. Er bod y nod hwn yn cael ei ystyried mewn ffordd gadarnhaol yn gyffredinol gan randdeiliaid a gyfwelwyd â nhw, yn ymarferol canfuwyd bod sawl rhwystr yn cyfyngu ar faint o fwyd oedd yn cael ei gyrchu’n lleol. Nodwyd chwyddiant cynyddol mewn perthynas â bwyd, costau gweithredu uwch, seilwaith storio a phrosesu cyfyngedig, a chyfyngiadau o ran cyflenwi i gyd fel heriau sylweddol. Tynnodd rhai darparwyr bwyd ysgol sylw at y ffaith bod archfarchnadoedd yn aml yn bidio’n uwch am gynnyrch tymhorol nag ysgolion, tra bod maint cyfyngedig y sector garddwriaethol yng Nghymru yn lleihau'r amrywiaeth sydd ar gael. Roedd diffyg cyfleusterau prosesu a rhewgelloedd, yn ogystal â'r llafur ychwanegol sydd ei angen i ddefnyddio cynnyrch ffres, yn cymhlethu ymdrechion i gaffael fwy o fwyd yn lleol ymhellach.

Hefyd, nododd nifer o randdeiliaid anawsterau wrth ddiffinio beth ddylai “caffael lleol” ei olygu yn ymarferol. Rhoddodd rhai flaenoriaeth i gynnyrch a dyfwyd yng Nghymru, canolbwyntiodd eraill ar gyflenwyr cyfagos waeth beth fo'r ffiniau cenedlaethol, a defnyddiodd rhai fodelau haenog (e.e. sir yn gyntaf, yna Cymru, yna'r Deyrnas Unedig).

Er gwaethaf y rhwystrau hyn, rhoddwyd gwybod am enghreifftiau o arfer da. Mae un dosbarthwr mawr wedi integreiddio cyflenwyr llai o Gymru i'w rwydwaith, gan alluogi mwy o gynnyrch o Gymru i gyrraedd ceginau ysgolion ar raddfa fawr. Yn ogystal, mae mentrau fel y prosiect Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion wedi cael eu treialu i ddeall y ffordd orau o gryfhau cadwyni cyflenwi a chynyddu'r defnydd o gynnyrch a dyfir yn lleol mewn ysgolion.

## Cyfradd manteisio ar UPFSM

Mae natur gyffredinol UPFSM wedi dileu rhwystrau ariannol mewn perthynas â llawer o deuluoedd, yn enwedig y rhai sydd ychydig uwchben y trothwy ar gyfer bod yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae hyn wedi galluogi mwy o ddysgwyr i gael mynediad at brydau ysgol rheolaidd ac wedi lliniaru'r pwysau ariannol ar rieni/gofalwyr. Erbyn mis Gorffennaf 2024, roedd y canran o blant oedd yn manteisio ar y cynnig ar draws ALlau Cymru wedi cyrraedd 69%, ac roedd cyfraddau'n amrywio o 57% i 82%. Mae'r nifer sy'n manteisio ar y cynnig wedi cynyddu'n raddol ers cyflwyno UPFSM, gan godi o 67% ym mis Medi 2022, ac mae'r cyfranogiad uchaf ymhlith dysgwyr iau a oedd yn gymwys o'r cychwyn cyntaf.

Adroddodd rhanddeiliaid am amrywiaeth o ffactorau a gyfrannodd at gynnydd o ran y niferoedd sy'n manteisio ar y cynnig. Yn gyffredinol, roedd ysgolion sy'n cynnig mwy o amrywiaeth ar y fwydlen yn nodi bod mwy o ddysgwyr wedi manteisio ar y cyfle. Mewn llawer o ysgolion, roedd staff hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth annog dysgwyr trwy ganmoliaeth, gwobrau, platiau blasu ac addasiadau i fwydlenni, er bod hyn yn fwy heriol mewn ysgolion mwy. Yn ogystal, nododd rhai ysgolion fod UPFSM wedi helpu i greu profiad bwyta mwy cynhwysol, gan normaleiddio cyfranogiad a hyrwyddo dylanwad cadarnhaol gan gyfoedion. Mae mentrau megis seddi wedi'u neilltuo a rhaglenni dan arweiniad cyfoedion wedi annog dysgwyr i roi cynnig ar fwydydd newydd a mabwysiadu arferion bwyta iachach, gan gefnogi ymhellach manteisio ar y cynnig o brydau ysgol rheolaidd a hyrwyddo dewisiadau cadarnhaol o fewn amgylchedd yr ysgol.

Mae'r cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n manteisio ar y cynnig am bryd ysgol wedi rhoi mwy o straen ar logisteg amser cinio, yn enwedig mewn ysgolion mwy sydd â lle cyfyngedig. Dywedodd rhai ysgolion fod hyn wedi arwain at giwiau hirach, dysgwyr yn rhuthro'u bwyd, ac amgylcheddau bwyta mwy swnllyd, gan wneud goruchwylio'n anoddach a chyfyngu ar yr amser sydd gan ddysgwyr i fwyta. Mewn ymateb, mae rhai ysgolion wedi ad-drefnu amseroedd cinio, megis gweini mewn grwpiau llai neu ddefnyddio agoriadau gweini ychwanegol, i greu profiad bwyta tawelach a mwy pleserus. Yn gyffredinol, mae ysgolion llai wedi profi llai o aflonyddwch, gan olygu mai dim ond mân addasiadau oedd eu hangen.

Mae mwy o ddysgwyr yn manteisio ar y cynnig am brydau wedi rhoi pwysau ychwanegol ar staff mewn rhai ysgolion. Mae'r pwysau hyn yn adlewyrchu cyfuniad o ffactorau, gan gynnwys heriau staffio a gweithredol presennol, amseroedd cinio

prysurach, a chyfrifoldebau ychwanegol. Adroddodd ychydig o staff eu bod yn gweithio y tu hwnt i oriau contractiol neu'n teimlo eu bod dan fwy o bwysau, er bod profiadau'n amrywio ar draws ysgolion. Hefyd, adroddodd rhai staff am bwysau ychwanegol yn deillio o reoli nifer uwch o ddeietau arbennig oherwydd risgiau iechyd cysylltiedig. Mae heriau recriwtio a chadw staff yn parhau, yn enwedig ar gyfer rolau rhan-amser ac mewn ardaloedd gwledig.

Mae mwy o ddysgwyr yn manteisio ar y cynnig hefyd wedi sbarduno galw am fwydlenni arbennig a systemau digidol i gofrestru anghenion deietegol. Adroddodd ysgolion eu bod yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i reoli alergeddau a gofynion meddygol, gan gynnwys bwydlenni pwrpasol, cyfranogiad uniongyrchol gan gogyddion, technegau adnabod gweledol, a hambyrddau lliw ar gyfer prydau arbennig. Er bod sawl ysgol wedi nodi eu bod wedi diwallu'r anghenion hyn yn effeithiol, mae problemau ynghylch addasrwydd diwylliannol (megis opsiynau halal aneglur neu fwydlenni heb eu cyfieithu) weithiau'n arwain at rieni/gofalwyr yn darparu ciniawau pecyn yn lle.

## Effaith ar weinyddiaeth yr ysgol

Adroddodd sawl ysgol fod UPFSM wedi lleihau beichiau gweinyddol sy'n gysylltiedig â rheoli dyled arian cinio, gan ryddhau staff i ganolbwyntio ar gyfrifoldebau craidd a gwella perthnasoedd â theuluoedd. Mae trefn y bore wedi dod yn fwy syml, gan nad oes angen i staff fynd ar ôl balansau heb eu talu na rheoli systemau talu mwyach, gan gyfrannu at weithrediadau llyfnach o ddydd i ddydd.

Fodd bynnag, mae'r polisi wedi creu heriau newydd i ysgolion o ran cynllunio ar gyfer dysgwyr agored i niwed a'u cynorthwyo. Adroddodd rhai staff ostyngiad canfyddedig yn nifer y rhai oedd yn cofrestru fel dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, ac roeddent yn priodoli hyn i rieni/gofalwyr yn tybio ar gam nad oes angen cofrestru mwyach. Gallai sawl ffactor fod yn cyfrannu at y dirywiad mewn cyfraddau dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, megis chwyddiant cynyddol ochr yn ochr â throthwy nad yw wedi'i newid. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi cael ei adrodd i fod wedi effeithio ar gynllunio ac adnoddau ysgolion, yn enwedig mewn ysgolion mwy neu ysgolion sydd dan fwy o anfantais economaidd-gymdeithasol, gan olygu bod angen ymdrechion cyfathrebu ychwanegol i sicrhau bod teuluoedd yn parhau i wneud cais am brydau ysgol am ddim fel bod dysgwyr agored i niwed yn parhau i gael y cymorth y mae ganddynt hawl iddo. Er bod UPFSM wedi symleiddio darpariaeth prydau bwyd yn gyffredinol, mae'r effaith yn amrywio yn ôl maint a chyd-destun yr ysgol, ac mae ysgolion mwy ac ysgolion sydd dan fwy o anfantais economaidd-gymdeithasol yn ymddangos eu bod yn profi'r pwysau hyn yn fwy acíwt.

### Effaith ar iechyd a llesiant

Yn gyffredinol, canfyddir bod cyflwyno UPFSM wedi cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant dysgwyr, yn enwedig i'r rhai o cenfdiroedd difreintiedig a'r rhai sydd

ychydig uwchben y trothwy cymhwysedd ar gyfer fod yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mewn sawl ysgol, sylwodd staff a rhieni/gofalwyr fod plant a oedd gynt yn cyrraedd yr ysgol yn llwglyd bellach yn cael o leiaf un pryd o fwyd poeth y dydd. Fodd bynnag, mae ymatebion arolwg gan uwch-arweinwyr ysgolion yn dangos canlyniadau cymysg: mae rhai ysgolion, yn enwedig mewn ardaloedd trefol, wedi gweld gwelliannau mewn perthynas â newyn ac ansicrwydd bwyd, tra bod eraill wedi nodi ychydig iawn o newid.

Rhaid i bob pryd ysgol ddilyn y Rheoliadau Bwyta'n Iach, sy'n gosod safonau ar gyfer y math o fwyd a diod a ddarperir a'u cynnwys maethol (Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion). Mae'r polisi wedi sicrhau bod mwy o blant yn cael prydau cytbwys ac ystod ehangach o fwydydd, gan helpu i leihau nifer y rhai sy’n cael eu hystyried yn “ffyslyd” o ran yr hyn maent yn ei fwyta, ac annog dewisiadau iachach, gan gynnwys dylanwadu ar gynnwys ciniawau pecyn. Er gwaethaf y buddion hyn, cododd rhai staff bryderon y gallai pwysau gweithredol fod yn effeithio ar ansawdd bwyd, ac nad oes gan bob dysgwr fynediad cyfartal, yn enwedig y rhai ag anghenion deietegol neu ddiwylliannol arbennig. Gall yr heriau hyn helpu i esbonio pam mae rhai dysgwyr a rhieni/gofalwyr yn parhau i ffafrio ciniawau pecyn.

Adroddodd rhai staff ysgol am effeithiau cymedrol ond cadarnhaol o ran ymddygiad a chanolbwyntio mewn perthynas â dysgwyr yn sgil UPFSM, gan nodi bod dysgwyr yn ymddangos fel eu bod wedi’u setlo’n fwy, yn llai llwglyd, ac yn fwy abl i gymryd rhan mewn gwersi yn y prynhawn. Gwelodd rhai rhieni/gofalwyr welliannau hefyd o ran ffocws a chyfranogiad eu plant yn yr ysgol oherwydd eu bod yn cael pryd o fwyd. Fodd bynnag, mae'r effaith ar bresenoldeb yn parhau i fod yn aneglur. Er bod rhywfaint o dystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu y gallai rhai rhieni/gofalwyr roi blaenoriaeth i bresenoldeb er mwyn sicrhau bod eu plant yn cael pryd o fwyd, mae data cenedlaethol yn dangos, er bod y bwlch rhwng dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau bwyd am ddim a'u cyfoedion wedi lleihau, ei fod yn parhau i fod yn sylweddol.

## Effaith ar gyllid teuluol

Teimlai llawer o randdeiliaid fod y polisi UPFSM wedi lleddfu pwysau ariannol ar deuluoedd, yn enwedig y rhai â mwy nag un o blant, drwy cael gwared ar yr angen i gyllidebu ar gyfer prydau ysgol a chiniawau pecyn.

Dywedir hefyd fod y polisi wedi lleddfu pwysau ariannol, yn enwedig i deuluoedd ychydig uwchben y trothwy i fod yn gymwys am brydau ysgol am ddim, gan leihau stigma a hyrwyddo amgylchedd ysgol mwy cynhwysol. Adroddwyd yn gyffredin ymhlith rhieni/gofalwyr yn yr astudiaethau achos fod y cynllun hefyd wedi dod â buddion ymarferol, gan gynnwys arbed amser, symleiddio arferion, gwella tawelwch meddwl, a chefnogi cynllunio prydau bwyd iachach. Gyda'i gilydd, mae hyn yn cyfrannu at brofiad ysgol tecach a mwy cefnogol i ddysgwyr a'u teuluoedd.

# 4. Gwersi a ddysgwyd ac argymhellion

Mae ymchwil hyd yma yn awgrymu bod UPFSM yn cyflawni ei nodau craidd yn fras o gynyddu mynediad at brydau ysgol, cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant dysgwyr, a chefnogi teuluoedd. Fodd bynnag, mae rhai ysgolion ac ALlau yn parhau i ymdopi â heriau gweithredol a logistaidd sy'n gysylltiedig â chynyddu'r ddarpariaeth gyffredinol a sicrhau bod nifer fawr o ddysgwyr yn manteisio ar y cynnig. Mae cyflwyno UPFSM wedi tynnu sylw at sawl gwers ar gyfer gweithredu UPFSM mewn mannau eraill, yn ogystal ag ar gyfer sicrhau bod dysgwyr yn parhau i fanteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim.

Mae cyfathrebu clir a pharhaus yn dilyn y cyflwyniad yn hanfodol i ysgolion, ALlau a theuluoedd, gan gynnwys canllawiau sy'n hygyrch, yn amlieithog, ac yn cael eu diweddaru'n rheolaidd, yn enwedig wrth i newidiadau pellach i'r Rheoliadau Bwyta'n Iach gael eu cyflwyno. Byddai ysgolion hefyd yn elwa o rwydweithiau i rannu arferion gorau ar gyfer cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y cynnig, gan gynnwys strategaethau sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth o ran bwydlenni, diwallu anghenion deietegol a diwylliannol, ac ymgysylltu â dysgwyr hŷn.

Mae sicrhau bod canllawiau'n parhau i gael eu darparu i ALlau ar sut i gasglu data safonol o ansawdd uchel a sut y gallent ddefnyddio hyn i fonitro'r nifer sy'n cymryd rhan ac i ddeall patrymau nifer y dysgwyr yn hanfodol. Byddai data gwell yn helpu i nodi grwpiau o ddysgwyr nad ydynt efallai'n elwa'n llawn o'r cynnig UPFSM a galluogi cymorth wedi'i dargedu'n fwy lle mae cyfradd y rhai sy'n manteisio isaf. Mae hefyd angen sicrhau bod dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn parhau i gael mynediad at fuddion cysylltiedig trwy brosesau cofrestru symlach, cyfathrebu gwell, neu ailfrandio cynllun 'dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim' i amlygu ei gynnig cymorth ehangach.

Er bod cefnogaeth gref i'r syniad o gaffael cynnyrch o Gymru a chynnyrch lleol, mae rhwystrau'n parhau, gan gynnwys cyfyngiadau yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi, diffyg seilwaith prosesu, a chostau bwyd cynyddol. Gallai datblygu a hyrwyddo diffiniad clir o beth sy'n cyfrif fel cynnyrch 'lleol' mewn perthynas â chaffael bwyd ysgol, treialu mentrau i gynyddu'r cyflenwad lleol, a datblygu strategaeth gaffael hirdymor a chynaliadwy helpu i oresgyn yr heriau hyn.

Nodwyd hefyd fod profiad amser cinio prysurach yn rhwystr posibl o ran manteisio ar y cynnig. Gall mesurau ymarferol, megis gwella cynlluniau ystafelloedd bwyta i hwyluso llif neu gael amseroedd cinio ar adegau gwahanol, helpu i greu profiad amser cinio mwy hamddenol a phleserus ac annog mwy o gyfranogiad.

Yn olaf, codwyd pryderon ynghylch effaith hirdymor y polisi heb y ddarpariaeth gyffredinol yn parhau ar lefel ysgol uwchradd, yn enwedig yn ystod y cyfnod pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Efallai y bydd archwilio opsiynau i ehangu'r ddarpariaeth prydau ysgol am ddim a/neu asesu dichonoldeb cynnig cyffredinol ar

lefel uwchradd yn bwysig i'w ystyried er mwyn sicrhau bod y polisi yn cael buddion parhaus.

Awduron yr Adroddiad: Haysey, Nicola; Smiles, Beth; Falla, Dr Abby; Cooper, Priya; Cleaver, Rhydian Rolant; Cross, Roisin

Adroddiad Ymchwil Llawn: Haysey, N et al. (2026). Gwerthusiad o Bolisi Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd Llywodraeth Cymru: Adroddiad Interim. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 25/2026

Ar gael yn: [https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-cynllun-prydau-ysgol-am-ddim-i-holl-blant-ysgolion-cynradd-adroddiad-interim](https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-cynllun-prydau-ysgol-am-ddim-i-holl-blant-ysgolion-cynradd-adroddiad-interim)

Safbwyntiau'r ymchwilwyr sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Cangen Ymchwil Ysgolion

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: [YmchwilYsgolion@llyw.cymru](mailto:YmchwilYsgolion@llyw.cymru)

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83745-026-8